# ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR LLES ECONOMAIDD

11eg Ebrill 2025

**TEITL:** Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor Lles Economaidd

**AWDUR:** Iwan Evans, Swyddog Monitro

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Adolygu'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor Lles Economaidd (***Atodiad 1***).

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Mabwysiadu'r Cylch Gorchwyl.

## 3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Rhaid i'r Is-bwyllgor weithredu'r rheolau a'r gweithdrefnau hynny fel y'u mabwysiadir gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ac a nodir yn y Cylch Gorchwyl – dyma'r pwerau sy'n cael eu dirprwyo i'r Is-bwyllgor. Rhaid i unrhyw ddiwygiad i'r telerau hyn gael eu cymeradwyo gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Ar 17 Ionawr, 2025 cymeradwyodd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig sefydlu'r Is-bwyllgor Lles Economaidd ei aelodaeth a'r Cylch Gorchwyl, i gyflawni'r swyddogaeth llesiant economaidd a roddwyd i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn dilyn Rheoliadau Sefydlu. Roedd yr ysgogiad strategol i drosglwyddo'r Cynllun Twf i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn deillio o'r gydberthynas mewn aelodaeth rhwng Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd, yr awydd i osgoi lluosog o gyrff rhanbarthol a swyddogaethau tebyg, a manteision ac effeithlonrwydd cyfreithiol a gweithredol amrywiol y Cyd-bwyllgor Corfforedig fel endid corfforaethol ei hun.

4.2. Gyda trosglwyddiad y Cynllun Twf ar y 1af o Ebrill mae natur strategol rôl yr Is-Bwyllgor yn ystod y cyfnod cychwynnol ar ôl trosglwyddo, bydd yr Is-Bwyllgor Lles Economaidd yn canolbwyntio ar yrru mlaen Cynllun Twf Gogledd Cymru, ac mae'r Cylch Gorchwyl yn adlewyrchu'r ffocws hwn. Wrth i ddealltwriaeth ddatblygu am ddiffiniad Lles Economaidd ar lefel ranbarthol, bydd y Cylch Gorchwyl yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu hyn.

4.3. Daw aelodaeth yr Is-Bwyllgor o Aelodaeth Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd, gyda'r Arweinyddion yr Awdurdodau Lleol yn aelodau enwebedig. Mae llywodraethu presennol yr is-bwyllgor yn dod o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y trefniadau cyfethol.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r adroddiad hwn.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Ymdrinnir â'r goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu yng nghorff yr adroddiad.

---

ATODIADAU:

**Atodiad 1:** Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor Lles Economaidd

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

Awdur yr adroddiad.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

“Rwyf o’r farn fod y Cylch Gorchwyl arfaethedig ar gyfer yr Is-Bwyllgor Lles Economaidd yn rhesymol ac rwyf yn ei gefnogi.”